Y Saith Rhyfeddod



Mi glywais ddwedyd fod y petris, . . .
Ar y traeth yn chwarae'n steilis, . . .
Ac yn gwneuthur peli o dywod, . . .
Dyna ddau o'r saith rhyfeddod, . . .

Mi glywais ddwedyd fod y cryman, . . .
Yn y cae yn medi ei hunan, . . .
Ac yn torri cefn mewn diwrnod, . . .
Dyna dri o'r saith rhyfeddod, . . .

Mi glywais ddwedyd fod y mochyn, . . .
Ar ben car yn llwytho rhedyn, . . .
Ac yn gwneud ei lwyth yn barod, . . .
Dyna bedwar o'r saith rhyfeddod, . . .

Mi glywais ddwedyd fod y lleuan, . . .
Yn Llangollen yn dysgu darllan . . .
Ac yn medru ei gwers yn hynod, . . .
Dyna bump o'r saith rhyfeddod, . . .

Mi glywais ddwedyd fod y gloman, . . .
Ar y môr yn cadw tafarn, . . .
A'i chwpan bach i brofi'r ddiod, . . .
Dyna chwech o'r saith rhyfeddod, . . .

Mi glywais ddwedyd fod y wennol, . . .
Ar y môr yn gosod pedol, . . .
A'i morthwyl aur a'i hengan arian, . . .
A dyna'r saith rhyfeddod allan, . . .